# Yr wythnos This week

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor
Eglwys y Groes Maesgeirchen

## 30 Awst | Y Trydydd Sul ar Ddeg wedi'r Drindod
## 30 August | The Thirteenth Sunday after Trinity

**8.15am** Holy Eucharist
*Revd Neville*

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân
*Deon Manon a Chanon Tracy (p)*
Offeren i Dri Llais, Byrd

**11.00am** Sung Holy Eucharist
*Dean Manon and Canon Tracy (p)*
Mass for Three Voices, Byrd

**11.00am | Eglwys y Groes** Cymun Bendigaid | Holy Eucharist
*Parchg | Revd Andy*

**3.30pm** Gosber | Evensong
*Parchg | Revd Andy*

## Dydd Llun | Monday • Aeddan | Aidan

**8.30am | Zoom** Boreol Weddi | Morning Prayer

## Dydd Mawrth | Tuesday • Lucian Tapiedi a Merthyron Papwa Gini Newydd | and the Martyrs of Papua New Guinea

**8.30am** Boreol Weddi | Morning Prayer

**5.15pm** Hwyrol Weddi | Evening Prayer

## Dydd Mercher | Wednesday

**8.30am** Boreol Weddi | Morning Prayer

**12.30pm** Cymun Bendigiaid | Holy Communion

**3.30pm | Eglwys y Groes** Clwb Adeiladwyr *LEGO* Builders' Club

**1.00pm** Croeso Cynnes | Warm Spaces

**5.15pm** Hwyrol Weddi | Evening Prayer

## Dydd Iau | Thursday
## Grigor Fawr | Gregory the Great

**8.30am** Boreol Weddi | Morning Prayer

**12.00pm | Eglwys y Groes** Panad a Sgwrs | Cuppa and Chat

**1.15pm** Doniau

**2.00pm | Eglwys y Groes** Astudiaeth Feiblaidd | Bible Study

**5.15pm** Gosber | Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**8.30am | Eglwys y Groes** Boreol Weddi | Morning Prayer

**12.00pm** Gwasanaeth Iacháu | Healing Service

**7.30pm | St John's** Cerddoriaeth Haf | Summer Music

## 6 Medi | Y Pedwaredd Sul ar Ddeg wedi'r Drindod
## 6 September | The Fourteenth Sunday after Trinity

**8.15am** Holy Eucharist
*Revd Neville*

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân
*Canon Tracy ac Elma (p)*

**11.00am** Sung Holy Eucharist
*Canon Tracy and Elma (p)*

**11.00am | Eglwys y Groes** Cymun Bendigaid | Holy Eucharist
*Parchg | Revd Andy*

**3.30pm** Gosber | Evensong
*Parchg | Revd Andy*

Mae darlleniadau ar gyfer yr wythnos ar gael ar y wefan yma ac mae'n bosib llawrlwytho ap pwrpasol ar gyfer y llithiadur.

Readings for the week are available on the following website where it is possible to download an app for the lectionary: lectionary.churchinwales.org.uk

neu sganiwch côd QR | or scan the QR code

Ymholiadau cyffredinol ac i gofrestru am y rhestr e-bost: cadeirlanbangoradmin@cinw.org.uk
General enquiries and to register for the mailing list: cadeirlanbangoradmin@cinw.org.uk

# *Hysbysiadau* Notices

## Nodyn gan Manon

O 1 Medi ymlaen, bydd y Canon Tracy yn gwasanaethu fel Deon dros Dro, ac ni fyddaf mwyach yn gwasanaethu fel Deon y Gadeirlan.

Wrth gwrs, fel Esgob, byddaf yn dal i fod o gwmpas ac yn parhau i gefnogi bywyd, cenhadaeth a gweinidogaeth y Gadeirlan, er mewn ffordd wahanol. Rwyf yn gobeithio ymuno â chi mewn addoliad o bryd i'w gilydd pan nad oes gennyf ymrwymiadau eraill ar ddydd Sul, ac edrychaf ymlaen at rannu yn yr achlysuron pwysig fel gwasanaethau ordinasiwn, bedydd esgob a phrif ŵyliau'r Eglwys, fel mae esgobion yn gwneud yn arferol.

Yr unig faes lle byddaf yn parhau i fod yn ymwneud yn uniongyrchol yw archwiliad diogelu'r Gadeirlan. Trefnwyd hwn rai misoedd yn ôl fel rhan o adolygiad taleithiol o gadeirlannau, ac mae'n gwneud synnwyr imi barhau fel y cyswllt ar gyfer y tîm archwilio nes bydd y broses wedi'i chwblhau.

Ar gyfer pob mater arall, cyfeiriwch eich ymholiadau at Tracy, os gwelwch yn dda.

Diolch o galon i chi am eich croeso, eich cyfeillgarwch a'ch cefnogaeth. Mae hynny wedi golygu llawer iawn i mi, ac rwyf yn ddiolchgar iawn.

Gyda chariad a chan ddymuno phob bendith,

**Manon**

## Archwiliad Diogelu

Fel rhan o ymrwymiad parhaus yr Eglwys yng Nghymru i ddiogelu, mae pob un cadeirlan yn yr Eglwys yng Nghymru yn cael archwiliadau diogelu annibynnol eleni. Mae Social Care Institute for Excellence (SCIE) eisoes wedi cwblhau archwiliadau yn y pum cadeirlan arall a bydd archwiliad Cadeirlan Bangor yn digwydd ym mis Medi, pan edrychwn ymlaen i groesawu Elizabeth Locke o SCIE acw ar Fedi 22ain a 23ain.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd holiaduron yn cael eu hanfon at bawb sydd ar y gofrestr etholiadol, yn ogystal â'n gwirfoddolwyr a'n staff. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd ychydig funudau i'w llenwi a'u dychwelyd, gan fod eich ymatebion yn rhan bwysig o'r broses.

Byddwn hefyd yn darparu polisïau a dogfennau perthnasol i Elizabeth fel rhan o'r archwiliad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Manon neu Tracy.

## Gwau wrth Glebran

Rydym yn gobeithio dechrau grŵp i "Wau wrth Glebran". Y nod yw gwau (neu grosio) llygod i stiwardiaid y Gadeirlan eu rhoi i blant sy'n ymweld ac sy'n chwilio am y llygod pren ar ddodrefn y Gadeirlan. Rydym yn cael trafferth cadw i fyny â'r galw nawr bod ein prif wnïwr wedi ymddeol.

Dewch draw ddydd **Mercher 9 Medi** ar ôl y gwasanaeth Cymun am 12.30pm. Rydym yn gobeithio cwrdd rhwng 1-3pm ac ymuno â'r prosiect Croeso Cynnes. Mae gwlân ar gael ond dewch â'ch nodwyddau gwau eich hun Maint 3.50 neu 4.00 ar gyfer Gwau Dwbl. (Maint 10 ymerodrol). Mae croeso i chi ddod â'ch gwau neu grosio eich hun os yw'n well gennych. Dewch am sgwrs a phanad.

## Boreol Weddi

Manylion ar gyfer Boreol Weddi ar Zoom ddydd Llun:

ID 856 9974 7629; Cyfrinair 680320

## Manylion Cyswllt

Os ydych angen ymweliad bugeiliol neu cymun gartref cysylltwch â Chanon Tracy (ar gyfer y Gadeirlan) tracyjones@cinw.org.uk neu Parch Andy (EyG) andybroadbent@cinw.org.uk.

Mae rhif ffôn y Gadeirlan yn cael ei fonitro yn ystod oriau swyddfa
Llun-Sad 10am-3pm: 07484 922263.

Y dyddiad cau ar gyfer argraffu eitemau yn nhaflen hysbysiadau'r Sul canlynol yw dydd Mercher am hanner dydd. Anfonwch wybodaeth i'w chynnwys at Sam: samjones@cinw.org.uk.

## A note from Manon

From 1 September, Canon Tracy will become Acting Dean, and I will no longer be serving as Dean of the Cathedral.

As Bishop, I will of course still be around and will continue to support the life, mission and ministry of the Cathedral, though in a different way. I hope to worship with you from time to time when I am free on Sundays, and I look forward to sharing in significant occasions such as ordinations, confirmations and the major festivals of the Church, as bishops normally do.

One area where I will remain involved is the Cathedral safeguarding audit. This was arranged some months ago as part of a provincial review of cathedrals, and it makes sense for me to continue as the link person for the audit team until that process is complete.

For all other matters, please direct your enquiries to Tracy.

Thank you for the welcome, friendship and support you have shown me. It has meant a great deal, and I am deeply grateful.

With love and wishing you every blessing,

Manon.

## Safeguarding Audit

As part of the Church in Wales' ongoing commitment to safeguarding, all six Church in Wales cathedrals are undergoing independent safeguarding audits this year. Social Care Institute for Excellence (SCIE) has already completed audits at the other cathedrals, and Bangor Cathedral's audit will take place in September, when we look forward to welcoming Elizabeth Locke from SCIE on 22nd and 23rd September.

Over the next few weeks, questionnaires will be sent to everyone on the electoral roll, as well as to our volunteers and staff members. We would be very grateful if you could take a few moments to complete and return them, as your responses are an important part of the process.

We will also be providing Elizabeth with relevant policies and documentation to support the audit. If you have any questions, please do get in touch with Manon or Tracy.

## Knit and Natter

We're hoping to start a group to "Knit and Natter" (or "Crochet and Chat"). The aim is to knit (or crochet) mice for the Cathedral stewards to give out to visiting children who search for the wooden mice on the Cathedral furniture. We are struggling to keep up with the demand now that our main knitter has retired.

Come along on **Wednesday 9th September** after the Communion service at 12.30pm. We hope to meet 1-3pm and join the Warm Space project. Wool is available but bring your own knitting needles Size 3.50 or 4.00 for D.K. (Size 10 imperial). You are welcome to bring your own knitting or crochet if you prefer. Just come for a chat and a panad.

## Morning Prayer

Details for Zoom Morning Prayer on Monday: ID 856 9974 7629; Password 680320

## Contact Details

If you need a pastoral visit or home communion please contact Canon Tracy (for the cathedral) tracyjones@cinw.org.uk or Revd Andy (EyG) andybroadbent@cinw.org.uk.

The Cathedral's telephone number is monitored during office hours
Mon-Sat 10am-3pm: 07484 922263.

The deadline for items to be printed in the following Sunday's notice sheet is Wednesday at 12 noon. Please send information for inclusion to Sam: samjones@cinw.org.uk.

**Newyddion yr Esgobaeth | News from the Diocese (Y Ddolen)**

**Dewch yn wirfoddolwr(aig) | Become a volunteer**